# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

10 Mawrth 2022

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol yn Rithiol, Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Adroddiad ynghylch y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol (Tudalennau 3 - 22)**

**4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 23 - 34)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

L Edwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 17 Mawrth 2022 |
| **LLEOLIAD:** | O bell drwy fideogynadledda |
| **TEITL:** | Adroddiad ynghylch y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth a phenderfyniad – er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu fersiwn ddiwygiedig y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol |
| **Y RHESWM PAM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Ni ofynnwyd am yr wybodaeth. |

**CEFNDIR:**

Sefydlodd Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") y cysyniad o gyfyngu gweithgarwch gwleidyddol ar gyfer rhai swyddi dynodedig er mwyn sicrhau bod gweithwyr llywodraeth leol yn wleidyddol ddiduedd (gweler Deddf 1989 yma: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/42/section/2).

Yn unol â Deddf 1989, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw rhestr o'r swyddi hynny sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Gan ddod i rym ar 12 Ionawr 2010, newidiodd Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (gweler y Ddeddf yma: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/20/section/30) y dull o nodi swyddi sydd â chyfyngiadau gwleidyddol o dan Adran 2 Deddf 1989, a diddymodd y drefn o osod cyfyngiadau gwleidyddol ar staff yn sgil eu lefelau cyflog.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

O ganlyniad, penderfynwyd bod angen adolygu'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol (a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Ionawr 2020) ('y Polisi') (gweler y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol presennol yn **Atodiad 1**) oherwydd Brexit a newidiadau diweddar e.e. newidiadau i deitlau'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

Gweler y Polisi diwygiedig yn **Atodiad 2**. Mae'r newidiadau i'r Polisi yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu'r esboniad o'r Swyddi Penodedig a'r Swyddi Sensitif (o dan y darn 'Pwy sy'n cael eu heffeithio?');

- Diweddaru'r cyfeiriadau at deitlau'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol;

- Cynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro / Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn y rhestr o Swyddogion Statudol a dileu '(dan Ddeddf 1989)' o 1b):

  *1. Swyddi Penodedig*
  *…b) y* ***Prif Swyddogion Statudol*** ~~*(dan Ddeddf 1989)*~~

- Yn 2. Swyddi 'Sensitif' ychwanegwyd bod y swyddi hyn hefyd yn rhai sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Penderfynwyd hefyd bod angen diweddaru Cofrestr y Cyngor o Swyddi sydd o dan Gyfyngiadau Gwleidyddol a'r Swyddi sy'n Wleidyddol Sensitif, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Deallir y bydd angen diweddaru Contractau Cyflogaeth Staff er mwyn cyfeirio at eu rolau, os ydynt o dan gyfyngiadau gwleidyddol / yn wleidyddol sensitif.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo<br>**Os naddo, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:*** *Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi na strategaeth, yr unig beth a geir yw diweddariadau bychain i'r polisi presennol a newidiadau ffeithiol o ran rolau swyddi.* | |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| | **Integreiddio:** | Amherthnasol |
| | **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| | **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| | **Atal:** | Amherthnasol |

**ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Dylai'r Pwyllgor nodi a chymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol (yn **Atodiad 2**).

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Er mwyn monitro dyletswyddau deddfwriaethol y Cyngor o ran swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol / swyddi sy'n wleidyddol sensitif gan gynnwys y gwaith o gadw Cofrestr y Cyngor.

**Enw'r Cyswllt:** Elin Prysor

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | Y Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | |
| **Acronymau:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1**- Y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol presennol<br>**Atodiad 2** – Y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol arfaethedig |

CEREDIGION

# CYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL AR WEITHWYR LLYWODRAETH LEOL

**Awdur:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Monitro

13/9/19

**Dyddiad Cyhoeddi:**

## CYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL AR WEITHWYR LLYWODRAETH LEOL

### Cyflwyniad

Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i lunio a diweddaru'n rheolaidd restr o'r swyddi hynny sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") y cysyniad o gyfyngu gweithgaredd gwleidyddol ar gyfer rhai swyddi dynodedig er mwyn sicrhau bod gweithwyr llywodraeth leol yn wleidyddol ddiduedd.

Gan ddod i rym ar 12 Ionawr 2010, newidiodd Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 y dull o nodi swyddi sydd â chyfyngiadau gwleidyddol dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a diddymodd y drefn o osod cyfyngiadau gwleidyddol ar staff yn sgil eu lefelau cyflog.

O ganlyniad, adolygodd y Cyngor y swyddi a ystyriwyd fel rhai dan gyfyngiadau gwleidyddol, gan eu hasesu a sicrhau eu bod dan gyfyngiadau gwleidyddol dilys yn rhinwedd y dyletswyddau a gyflawnir ganddynt.

Yn ogystal, adolygydd y Cyngor ddyletswyddau swyddi eraill o fewn y Cyngor i benderfynu a ddylid eu categoreiddio fel rhai dan gyfyngiadau gwleidyddol.

### <u>Pwy sy'n cael eu heffeithio?</u>

Mae swyddi sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol yn perthyn yn fras i ddau gategori, sef un ai "Swyddi Penodedig" neu "Swyddi Sensitif" dan Deddf 1989:

### 1. Swyddi Penodedig

**a) Pennaeth y Gwasanaeth Taledig** (Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai) a elwir yn:
**Brif Weithredwr** o fewn Cyngor Sir Ceredigion

**b)** y **Prif Swyddogion Statudol** (dan Deddf 1989)

- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i ddynodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal Gwasanaethau Arbenigol neu: Porth Cynnal Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'u Targedu o fewn Cyngor Sir Ceredigion

- Prif Swyddog Addysg, a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion o fewn Cyngor Sir Ceredigion, **a'r**

- Prif Swyddog Cyllid, a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael.

**c) Prif Swyddogion Anstatudol.** Swyddogion sy'n adrodd i Bennaeth y Gwasanaeth Taledig a/neu Bwyllgorau'r Cyngor, ac eithrio staff ysgrifenyddol/clerigol a elwir yn:

**Cyfarwyddwyr Corfforaethol**

**Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:**

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar Llesiant Cymunedol a Gwasanaethau Dysgu**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Ceredigion - Gwasanaethau Ymyrraeth Wedi'u Targedu**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**

**d) y Swyddog Monitro** (Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai) a elwir yn: **Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)** o fewn Cyngor Sir Ceredigion

**e) y Prif Swyddog Cyllid** (Adran 151 Swyddog Cymdeithas Llywodraeth Leol) a elwir yn: **Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151** o fewn Cyngor Sir Ceredigion

**f) Swyddogion sy'n ymarfer pwerau dirprwyedig,** h.y. pobl y mae eu swyddi'n cael eu pennu am y tro gan yr awdurdod, mewn rhestr a gedwir yn unol ag adran 1OOG(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hyn wedi'i osod yn y Cyfansoddiad.

**g) Cynorthwywyr grwpiau gwleidyddol**

Mae deiliaid yr holl swyddi hyn dan gyfyngiadau gwleidyddol ac nid oes ganddynt yr hawl i gyflwyno apêl i Ddyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru i gael eu heithrio.

**2. Swyddi 'Sensitif'**

Mae swydd sensitif yn un sy'n bodloni un, neu'r ddau faen prawf canlynol o ran dyletswyddau:

- Rhoi cyngor rheolaidd i'r awdurdod ei hun, i unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod, neu unrhyw gydbwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdod; neu lle mae'r awdurdod yn rhoi trefniadau gweithredu ar waith, i weithrediaeth yr awdurdod; i unrhyw un o bwyllgorau'r gweithrediaeth hwnnw; neu i unrhyw aelod o'r weithrediaeth hwnnw sydd hefyd yn aelod o'r awdurdod.

- Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor nad yw o natur ffeithiol, gan siarad yn rheolaidd â newyddiadurwyr neu ddarlledwyr ar ran yr awdurdod.

Os bodlonir y naill neu'r llall o'r profion uchod, mae'r swydd yn dod yn un *"wleidyddol sensitif"* waeth beth yw'r lefel cyflog.

Ni ddiffinnir "rheolaidd", ond yn y cyd-destun hwn mae'n golygu mynychu'n fwy aml nag yn achlysurol i gyflwyno adroddiad ffurfiol i Bwyllgor neu i'r Cabinet (Gweithrediaeth). Er enghraifft, mae mynychu mwy nag un o bob tri chyfarfod dros gyfnod o 12 mis yn debygol o olygu bod swydd yn gymwys. Mewn achosion o amheuaeth mae'r Dyfarnwr Annibynnol yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cadw cofnod o'r canlynol:

- y nifer o weithiau dros y 12 mis diwethaf y mae'r deiliad swydd un ai wedi mynychu, neu ddarparu adroddiad ar gyfer y rhai a restrir uchod, a

- disgrifiad o gynnwys adroddiad o'r fath, a ph'un ai oedd yn cynnwys cyngor neu argymhellion, a ph'un ai oedd angen i'r deiliad swydd siarad yn y cyfarfod ai peidio.

Mae Penaethiaid Ysgolion, athrawon a darlithwyr wedi'u heithrio o gyfyngiadau gwleidyddol dan a2(10) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai, ac ni ystyrir eu bod â 'swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol' beth bynnag yw eu rôl.

**Pa gyfyngiadau a osodir ar weithwyr mewn perthynas â gweithgaredd gwleidyddol?**

Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (SI 990/851) yn ymgorffori nifer o gyfyngiadau gwleidyddol o fewn contractau cyflogaeth deiliaid swyddi sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol. Mae'r cyfyngiadau'n berthnasol i'r gweithwyr bob amser tra maent yn eu swyddi.

Mae holl weithwyr yr awdurdod lleol, gan gynnwys crefftwyr a gweithwyr llaw, yn dod dan gwmpas y Ddeddf, gan gynnwys swyddi rhan-amser. Mae Rhannau I a II o'r Rheoliadau'n effeithio ar weithwyr sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol yn unol ag Adran 2 o Ddeddf 1989.

Mae gweithwyr sydd gan gyfyngiadau gwleidyddol wedi'u gwahardd rhag y canlynol:

**Rhan I – Telerau Penodi ac Amodau Cyflogaeth**

**1.** Cyhoeddi (neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw arall gyhoeddi) eu bod yn sefyll, neu'n bwriadu sefyll i'w hethol fel aelod o:

- Gyngor Sir (awdurdod lleol) dan ystyr 21(1) neu (2) o'r Ddeddf
- Tŷ'r Cyffredin
- Senedd Ewrop
- Senedd Yr Alban
- Llywodraeth Cymru

Sylwer: Mewn perthynas ag ymgeisio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin, os bydd gweithiwr yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r awdurdod ei fod am roi'r gorau i'w swydd am ei fod ef neu hi'n bwriadu cyhoeddi neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i rywun arall gyhoeddi, ei fod yn sefyll, neu'n bwriadu sefyll i gael ei ethol ar gyfer y corff hwnnw mewn etholiad sydd i ddod, bydd penodiad y gweithiwr yn dod i ben ar unwaith. Y Cyngor sydd i benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn p'un ai i ailsefydlu gweithiwr sy'n rhoi'r gorau i'w swydd, ac yna'n ymladd a cholli etholiad.

At ddibenion y paragraff hwn ystyrir bod etholiad ar fin dod:-

**(a)** yn achos etholiad cyffredinol, os ydy'r dyddiad y bwriedir diddymu'r Senedd cyn yr etholiad hwnnw wedi'i gyhoeddi'n swyddogol; neu

**(b)** yn achos is-etholiad, os ydy'r swydd y cynhelir yr etholiad ar ei chyfer wedi dod yn wag. Dylai gweithwyr nodi na wneir unrhyw daliad yn lle rhybudd dan amgylchiadau o'r fath.

**2.** Gweithredu fel asiant etholiad, neu is-asiant i ymgeisydd ar gyfer etholiad fel aelod o un o’r uchod.

**3.** Bod yn swyddog gyda phlaid wleidyddol, neu unrhyw gangen o blaid, neu’n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor plaid neu gangen, os yw eu dyletswyddau’n debygol o gynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith cyffredinol o reoli’r blaid, neu’r gangen; neu
- gweithredu ar ran y blaid neu’r gangen i ddelio â phobl ar wahân i aelodau’r blaid, neu aelodau o blaid wleidyddol arall sy’n gysylltiedig â’r blaid.

**4.** Canfasio ar ran plaid wleidyddol neu ar ran unigolyn sy’n sefyll, neu’n bwriadu sefyll i’w ethol ar gyfer un o’r cyrff a grybwyllir.

**Rhan II – Telerau ac Amodau Ychwanegol**

**1.** Siarad â'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ag adran o'r cyhoedd gyda'r bwriad amlwg o ennyn cefnogaeth gyhoeddus i blaid wleidyddol.

**2. (a)** cyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig os mai ef neu hi yw'r awdur (neu'n un o'r awduron), neu unrhyw waith ysgrifenedig neu gasgliad o waith artistig y bu wrthi'n ei olygu; neu

**(b)** achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw un arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath, os yw'r gwaith i'w weld yn ennyn cefnogaeth gyhoeddus i blaid wleidyddol.

Sylwer: Mae hyn yn berthnasol mewn perthynas â chyhoeddi ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol neu adran o'r cyhoedd yn unig, ac nid yw'n atal arddangos poster neu ddogfen arall ar eiddo y mae deiliad y swydd yn byw ynddo, neu ar gerbyd neu nwydd a ddefnyddir ganddynt. Nid yw'r cyfyngiadau yn Rhan II o'r rheoliadau'n atal y gweithiwr rhag ymgymryd â'r gweithgareddau hyn i'r fath raddau ag sydd angen er mwyn perfformio'i ddyletswyddau swyddogol yn iawn.

## Beth sy'n digwydd os bydd gweithwyr yn anwybyddu'r cyfyngiadau hyn?

Mae'r cyfyngiadau ar weithgaredd gwleidyddol wedi'u hymgorffori yng nghontractau cyflogaeth deiliaid swyddi sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac felly bernir bod anwybyddu'r cyfyngiadau'n drosedd y delir â hi'n unol â chamau disgyblu'r Awdurdod.

### Y drefn ar gyfer apelio yn erbyn cael eich cynnwys ar y rhestr o swyddi sensitif

Gall gweithwyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a lunnir gan awdurdodau lleol ar sail eu dyletswyddau apelio yn erbyn cael eu cynnwys os ydyn nhw o'r farn na allant ddylanwadu ar bolisi, neu fod yr awdurdod lleol wedi camddefnyddio'r meini prawf o ran dyletswyddau.

## Rôl y Dyfarnwr Annibynnol

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cael Dyfarnwr Annibynnol i roi cyngor cyffredinol i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r meini prawf o ran y swyddi sydd i'w cynnwys ar y rhestr o swyddi gwleidyddol sensitif. Mae'r Dyfarnwr hefyd yn delio ag unrhyw geisiadau gan unigolion sydd am gael eu swydd wedi'i heithrio o'r rhestr swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac mae ganddo/ganddi'r pŵer i fynnu y dylai swydd benodol gael ei chynnwys ar restr y Cyngor o swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol.

**Apelio yn erbyn statws cyfyngiadau gwleidyddol**

Mae'r cais i eithrio swydd rhag cyfyngiadau gwleidyddol yn dod o du'r Dyfarnwr Annibynnol. Fel rhan o'r broses mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn arwyddo Tystysgrif Barn yn datgan bod y swydd/nad yw'r swydd yn cael ei hystyried yn un wleidyddol sensitif yn nhermau'r profion a amlinellir uchod.

Wrth gyfeirio achos at sylw'r Swyddog Monitro, dylai'r aelod staff ddarparu gwybodaeth berthnasol i gefnogi'r cais i eithrio, a dylai Pennaeth y Gwasanaeth perthnasol wirio manylion a chywirdeb ffeithiol y cais. Yna bydd y dystysgrif wedi'i llenwi, y proffil swydd a'r llythyr cais yn cael eu hanfon ymlaen gan yr aelod staff at y Dyfarnwr Annibynnol yn y cyfeiriad isod:

Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru
d/o Llywodraeth Cymru
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**6. Penodiadau Newydd**

Pan wneir penodiadau newydd ar gyfer swyddi sydd o fewn y categorïau sensitif, rhaid i'r llythyr penodi gyfeirio at y ffaith bod y swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, a lle bo'n berthnasol, rhaid sicrhau bod y gweithiwr yn gwybod bod y swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol, a pha gamau sydd angen eu cymryd os yw am apelio i'r Dyfarnwr Annibynnol.

Bydd y Dyfarnwr Annibynnol yn ystyried ceisiadau i eithrio gan unigolion sydd wedi cael cynnig swydd gyda chyfyngiadau gwleidyddol, ond ni fydd yn derbyn ceisiadau gan rai sy'n ystyried gwneud cais am swydd o'r fath yn unig.

Pan fydd aelod staff wedi sicrhau eithriad gan Gyngor arall, ni fydd yr eithriad hwnnw'n trosglwyddo pan gaiff ei benodi i swydd gyda'r Cyngor newydd, a bydd angen gwneud cais o'r newydd am eithriad.

**7. Cofrestr**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i gynnal rhestr o swyddi a ystyrir fel rhai gyda chyfyngiadau gwleidyddol. Swyddog Monitro'r Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal y rhestr hon a dylid rhoi gwybod iddo ef neu hi am unrhyw newidiadau.

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gynnwys y tudalennau hyn neu ddarpariaethau'r Ddeddf, dylech gysylltu â:

- **SAC – Pobl a Threfniadaeth**
- **Swyddog Monitro**

**Ionawr 2020**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Legal and Governance

**DRAFFT**

# Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol

www.ceri.ceredigion.gov.uk

| | |
|---|---|
| Awdur: | Adnoddau Dynol, Pobl a Threfniadaeth<br>Swyddog Monitro, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu |
| Cymeradwywyd gan y Cabinet: | |
| Dyddiad Cyhoeddi: | |
| Dyddiad Adolygu: | |

DRAFT

**CYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL AR WEITHWYR LLYWODRAETH LEOL**

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor") o dan ddyletswydd i lunio a diweddaru'n rheolaidd restr o'r swyddi hynny sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") y cysyniad o gyfyngu gweithgarwch gwleidyddol ar gyfer rhai swyddi dynodedig er mwyn sicrhau bod gweithwyr llywodraeth leol yn wleidyddol ddiduedd.

Gan ddod i rym ar 12 Ionawr 2010, newidiodd Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 y dull o nodi swyddi sydd â chyfyngiadau gwleidyddol o dan Adran 2 Deddf 1989, a diddymodd y drefn o osod cyfyngiadau gwleidyddol ar staff yn sgil eu lefelau cyflog.

O ganlyniad, adolygodd y Cyngor y swyddi a ystyriwyd fel rhai o dan gyfyngiadau gwleidyddol, gan asesu a sicrhau eu bod o dan gyfyngiadau gwleidyddol dilys yn rhinwedd y dyletswyddau a gyflawnir ganddynt.

Yn ogystal, adolygodd y Cyngor ddyletswyddau swyddi eraill o fewn y Cyngor i benderfynu a ddylid eu categoreiddio fel rhai sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

**Pwy sy'n cael eu heffeithio?**

Mae swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn perthyn yn fras i ddau gategori, sef naill ai 'Swyddi Penodedig' (h.y. mae'r swyddi hyn wedi'u henwi'n benodol yn y ddeddfwriaeth fel swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol – gweler Categori 1 isod) neu 'Swyddi Sensitif' (mae'r 'swyddi sensitif' hyn hefyd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ond mae eu diffiniad yn fwy eang – gweler Categori 2 isod) o dan Ddeddf 1989:

**Categori 1 – Swyddi Penodedig**

**a)** y **Prif Weithredwr** (Adran 4 Deddf 1989) (a elwid gynt yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) o fewn y Cyngor

**b)** y **Prif Swyddogion Statudol**:

- Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn rhan o gyfrifoldebau Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes o fewn Cyngor Sir Ceredigion (a'r 'Unigolyn Cyfrifol');

- Y Prif Swyddog Addysg, a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant o fewn y Cyngor;

- Y Prif Swyddog Cyllid, a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (a'r Swyddog Adran 151) o fewn y Cyngor;

- Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd o fewn y Cyngor; a'r

- Swyddog Monitro (Adran 5 Deddf 1989), a elwir yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro) o fewn y Cyngor.

c) **Prif Swyddogion Anstatudol**. Swyddogion sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr a / neu Bwyllgorau'r Cyngor (ac eithrio staff ysgrifenyddol / clercol) a elwir yn:

**Cyfarwyddwyr Corfforaethol**

**Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:**
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Gwasanaethau Ymyrraeth Wedi'i Thargedu
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

d) **Swyddogion sy'n ymarfer pwerau dirprwyedig,** h.y. pobl y mae eu swyddi'n cael eu pennu am y tro gan yr awdurdod mewn rhestr (a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor) a gedwir yn unol ag Adran 100G(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n nodi (yn Saesneg yn unig):

*(2) A principal council shall maintain a list—*
*(a) specifying those powers of the council which, for the time being, are exercisable from time to time by officers of the council in pursuance of arrangements made under this Act or any other enactment for their discharge by those officers; and*
*(b) stating the title of the officer by whom each of the powers so specified is for the time being so exercisable.*

e) **Cynorthwywyr grwpiau gwleidyddol.** Mae deiliaid yr holl swyddi hyn o dan gyfyngiadau gwleidyddol ac nid oes ganddynt yr hawl i gyflwyno apêl i'r Dyfarnwr Annibynnol i gael eu heithrio.

**Categori 2 – Swyddi 'Sensitif'**

Mae swydd sensitif hefyd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac yn un sy'n bodloni un neu'r ddau o'r meini prawf canlynol o ran dyletswyddau:

- Rhoi cyngor rheolaidd i'r Cyngor ei hun, i unrhyw un o Bwyllgorau neu Is-bwyllgorau'r Cyngor neu unrhyw Gydbwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor; neu lle mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau gweithredu ar waith, i Weithrediaeth y Cyngor; i unrhyw un o Bwyllgorau'r Weithrediaeth honno; neu i unrhyw Aelod o'r Weithrediaeth honno sydd hefyd yn Aelod o'r Cyngor.

- Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor nad yw o natur ffeithiol, gan siarad yn rheolaidd â newyddiadurwyr neu ddarlledwyr ar ran yr awdurdod.

Os bodlonir y naill neu'r llall o'r profion uchod, mae'r swydd yn dod yn un 'wleidyddol sensitif', waeth beth yw lefel y cyflog, ac felly mae'n un sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Ni ddiffinnir 'rheolaidd', ond yn y cyd-destun hwn mae'n golygu mynychu'n fwy aml nag yn achlysurol i gyflwyno adroddiad ffurfiol i Bwyllgor neu'r Cabinet (Y Weithrediaeth) e.e. mae mynychu mwy nag 1 o bob 3 chyfarfod dros gyfnod o 12 mis yn debygol o olygu bod swydd yn gymwys. Mewn achosion o amheuaeth, mae'r Dyfarnwr Annibynnol yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cadw cofnod o'r canlynol:

- y nifer o weithiau dros y 12 mis diwethaf y mae deiliad swydd naill ai wedi mynychu neu ddarparu adroddiad ar gyfer y rhai a restrir uchod, a
- disgrifiad o gynnwys adroddiad o'r fath, a oedd yn cynnwys cyngor neu argymhellion, ac a oedd angen i'r deiliad swydd siarad yn y cyfarfod ai peidio.

Mae Penaethiaid Ysgolion, Athrawon a Darlithwyr wedi'u heithrio o gyfyngiadau gwleidyddol o dan Adran 2 (10) Deddf 1989, ac ni ystyrir eu bod â 'swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol' beth bynnag yw eu rôl.

**Pa gyfyngiadau a osodir ar weithwyr mewn perthynas â gweithgarwch gwleidyddol?**

Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (SI 990/851) ('Rheoliadau 1990') yn ymgorffori nifer o gyfyngiadau gwleidyddol o fewn contractau cyflogaeth deiliaid swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Mae'r cyfyngiadau'n berthnasol i weithwyr y Cyngor bob amser tra maent yn eu swyddi.

Mae holl weithwyr y Cyngor, gan gynnwys crefftwyr a gweithwyr llaw, yn dod o dan gwmpas Rheoliadau 1990, gan gynnwys swyddi rhan-amser. Mae Rhannau I a II o Reoliadau 1990 yn effeithio ar weithwyr sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol yn unol ag Adran 2 Deddf 1989.

Mae gweithwyr sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol wedi'u gwahardd rhag y canlynol:-

**Rhan I – Telerau Penodi ac Amodau Cyflogaeth**

**1.** Cyhoeddi (neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw un arall gyhoeddi) eu bod yn sefyll neu'n bwriadu sefyll i'w hethol fel aelod o:

- Gyngor Sir (awdurdod lleol) o dan ystyr adran 21(1) neu (2) Deddf 1989
- Tŷ'r Cyffredin
- Senedd yr Alban
- Llywodraeth Cymru

Sylwer, mewn perthynas ag ymgeisio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin, os bydd gweithiwr yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor ei fod am roi'r gorau i'w swydd am ei fod yn bwriadu cyhoeddi neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i rywun arall gyhoeddi, ei fod yn sefyll neu'n bwriadu sefyll i gael ei ethol ar gyfer y corff hwnnw mewn etholiad sydd i ddod, bydd penodiad y gweithiwr yn dod i ben ar unwaith. Y Cyngor sydd i benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn a ddylid ailsefydlu gweithiwr sy'n rhoi'r gorau i'w swydd, ac yna'n ymladd ac yn colli etholiad.

At ddibenion y paragraff hwn, ystyrir bod etholiad ar fin dod:-

a) yn achos etholiad cyffredinol, os ydy'r dyddiad y bwriedir diddymu'r Senedd cyn yr etholiad hwnnw wedi'i gyhoeddi'n swyddogol; neu
b) yn achos is-etholiad, os ydy'r sedd y cynhelir yr etholiad ar ei chyfer wedi dod yn wag. Dylai gweithwyr nodi na wneir unrhyw daliad yn lle rhybudd o dan amgylchiadau o'r fath.

**2.** Gweithredu fel asiant etholiad neu is-asiant ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll i'w ethol fel aelod o un o'r uchod.

**3.** Bod yn swyddog gyda phlaid wleidyddol, neu unrhyw gangen o blaid, neu'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor plaid neu gangen, os yw eu dyletswyddau'n debygol o gynnwys:-

- cymryd rhan yn y gwaith cyffredinol o reoli'r blaid, neu'r gangen; neu
- gweithredu ar ran y blaid neu'r gangen i ddelio â phobl ar wahân i aelodau'r blaid, neu aelodau o blaid wleidyddol arall sy'n gysylltiedig â'r blaid.

**4.** Canfasio ar ran plaid wleidyddol neu ar ran unigolyn sy'n sefyll neu sy'n bwriadu sefyll i'w ethol ar gyfer un o'r cyrff a grybwyllir.

**Rhan II – Telerau ac Amodau Ychwanegol**

**1.** Siarad â'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ag adran o'r cyhoedd, gyda'r bwriad amlwg o ennyn cefnogaeth gyhoeddus i blaid wleidyddol.

**2.** **(a)** cyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig os mai ef neu hi yw'r awdur (neu un o'r awduron), neu unrhyw waith ysgrifenedig neu gasgliad o waith artistig y bu wrthi'n ei olygu; neu

**(b)** achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw un arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath, os yw'r gwaith i weld yn ennyn cefnogaeth gyhoeddus i blaid wleidyddol.

Sylwer: Mae hyn yn berthnasol mewn perthynas â chyhoeddi ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol neu adran o'r cyhoedd yn unig, ac nid yw'n atal arddangos poster



DRAFT

neu ddogfen arall ar eiddo y mae deiliad y swydd yn byw ynddo, neu ar gerbyd neu nwydd a ddefnyddir ganddynt. Nid yw'r cyfyngiadau yn Rhan II o'r rheoliadau'n atal y gweithiwr rhag ymgymryd â'r gweithgareddau hyn i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'i ddyletswyddau swyddogol yn iawn.

**3. Beth sy'n digwydd os bydd gweithwyr yn anwybyddu'r cyfyngiadau hyn?**

Mae'r cyfyngiadau ar weithgarwch gwleidyddol wedi'u hymgorffori yng nghontractau cyflogaeth deiliaid y swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac felly bernir bod unrhyw achos o fynd yn groesi i'r cyfyngiadau'n drosedd y delir â hi'n unol â gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor.

**4. Y drefn ar gyfer apelio yn erbyn cael eich cynnwys ar y rhestr o swyddi sensitif**

Gall gweithwyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a lunnir gan y Cyngor ar sail eu dyletswyddau apelio yn erbyn cael eu cynnwys os ydyn nhw o'r farn na allant ddylanwadu ar bolisi, neu fod y Cyngor wedi camddefnyddio'r meini prawf o ran dyletswyddau.

**5. Rôl y Dyfarnwr Annibynnol**

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cael Dyfarnwr Annibynnol i roi cyngor cyffredinol i awdurdodau lleol (e.e. y Cyngor) ynghylch defnyddio'r meini prawf o ran y swyddi sydd i'w cynnwys ar y rhestr o swyddi sy'n wleidyddol sensitif. Mae'r Dyfarnwr hefyd yn delio ag unrhyw geisiadau gan unigolion sydd am gael eu swydd wedi'i heithrio o'r rhestr o swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac mae ganddo / ganddi'r pŵer i fynnu y dylai swydd benodol gael ei chynnwys ar restr y Cyngor o'r swyddi sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

**6. Apelio yn erbyn statws cyfyngiadau gwleidyddol**

Cyflwynir cais i'r Dyfarnwr Annibynnol i eithrio swydd rhag cyfyngiadau gwleidyddol. Fel rhan o'r broses mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn arwyddo Tystysgrif Barn yn datgan bod y swydd / nad yw'r swydd yn cael ei hystyried yn un wleidyddol sensitif yn nhermau'r profion a amlinellir uchod.

Wrth gyfeirio achos at sylw'r Swyddog Monitro, dylai'r gweithiwr ddarparu gwybodaeth berthnasol i gefnogi'r cais i eithrio, a dylai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol wirio manylion a chywirdeb ffeithiol y cais. Yna bydd y dystysgrif wedi'i llenwi, proffil y swydd a'r llythyr cais yn cael eu hanfon ymlaen gan y gweithiwr at y Dyfarnwr Annibynnol yn y cyfeiriad isod:

Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru,
d/o Llywodraeth Cymru,
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

**7. Penodiadau Newydd**

Pan wneir penodiadau newydd ar gyfer swyddi sydd o fewn y categorïau sensitif, rhaid i'r llythyr penodi gyfeirio at y ffaith bod y swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, a lle bo'n berthnasol, rhaid sicrhau bod y gweithiwr yn gwybod bod y swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol a pha gamau sydd angen eu cymryd os yw am apelio i'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd y Dyfarnwr Annibynnol yn ystyried ceisiadau i eithrio gan unigolion sydd wedi cael cynnig swydd sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ond ni fydd yn derbyn ceisiadau gan rai sy'n ystyried gwneud cais am swydd o'r fath yn unig.

Pan fydd gweithiwr wedi sicrhau eithriad gan Gyngor arall, ni fydd yr eithriad hwnnw'n trosglwyddo pan gaiff ei benodi i swydd gyda'r Cyngor newydd, a bydd angen gwneud cais o'r newydd am eithriad.

**8. Cofrestr**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gadw rhestr o swyddi a ystyrir fel rhai sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Swyddog Monitro'r Cyngor sy'n gyfrifol am gadw'r rhestr hon a dylid rhoi gwybod iddo ef neu hi am unrhyw newidiadau.

**9. Gwybodaeth bellach**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gynnwys y tudalennau hyn neu ddarpariaethau'r Ddeddf, dylech gysylltu â'r:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth**
- **Swyddog Monitro / Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**

**Ionawr 2022**

DRAFT

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Llun, 07 Chwefror 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Gareth Davies, Elizabeth Evans, Ifan Davies, Peter Davies MBE, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a Wyn Thomas

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Eifion Evans, Prif Weithredwr; Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Miss Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mr Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio; Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro; Dr Sarah Groves-Phillips – Rheolwr Polisi Cynllunio; Mr Duncan Hall, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid a Chyfrifon Gwasanaethau; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00am-12:00pm)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceredig Davies a'r Cynghorydd Dan Potter am na fedrent ddod i'r cyfarfod. (Serch hynny, daeth y Cynghorydd Davies i'r cyfarfod yn ddiweddarach ar ôl bod yn bresennol mewn gwrandawiad trwyddedu)

Ymddiheurodd y Cynghorydd Lynford Thomas a'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans am na fedrent ddod i'r cyfarfod am eu bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

3 **Cynigion Tai Cymunedol**

Dywedodd Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio fod y Grŵp Annibynnol wedi cyflwyno papur i'r Pwyllgor

ar 29 Tachwedd 2021 yn amlinellu gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain. Roedd y weledigaeth wedi'i drafftio mewn ymateb i'r sefyllfa economaidd sy'n wynebu pobl ifanc Ceredigion a'r diffyg cyfleoedd i'w galluogi i brynu eu cartref cyntaf ac aros yn eu cymunedau eu hunain.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021, cyflwynwyd tystiolaeth i'r Aelodau i ddangos mai cyfyngedig oedd y cyfleoedd i bobl ifanc allu prynu eu cartref cyntaf oherwydd yr economi yng Ngheredigion. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r cynnig a chytunwyd y byddai'r 'Weledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain' yn cael ei throsglwyddo i'r swyddogion perthnasol fel y gallent weithio ar ymarferoldeb y cynllun. Byddai'r Swyddogion wedyn yn dychwelyd i'r Pwyllgor gyda'u hargymhellion cyn y byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet a'r Cyngor. Petai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet/Cyngor, byddai'r opsiwn ariannu a ffefrir yn cael ei fodelu i mewn i'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb.

Dywedwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Premiwm Treth y Cyngor a oedd yn cynnwys Cynghorwyr a Swyddogion wedi cytuno'n unfrydol yn y cyfarfod ar 26 Ionawr 2022 i argymell a chefnogi'r cynnig tai lleol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad manwl o'r Prif Bwyntiau yn y Weledigaeth, Arfarniad o'r Cynnig a'r Casgliadau.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am gynnwys yr adroddiad a atebodd y swyddogion y cwestiynau hynny. Trafododd y Pwyllgor amrywiol faterion a chyfleoedd y byddai modd i'r weinyddiaeth newydd eu hystyried a'u datblygu ymhellach ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Cafwyd consensws bod y cynigion yn briodol fel cam cyntaf cynllun hirdymor i gefnogi pobl ifanc yng Ngheredigion.

CYTUNWYD argymell y canlynol i'r Cyngor:-

1.bod penderfyniad y Cyngor 24/3/16 Cofnod 12) Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:
"4) a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017), a, b) bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol."

2. bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 i 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.

3. bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.

4. o 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.

5. bod penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8)b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi yn cael ei ddiddymu.

6. bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.

7.bod y posibilrwydd o sefydlu Cynllun Budd Cymunedol yn cael ei ohirio am flwyddyn.

Ar ôl ystyried hyn oll, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cytuno i bwyntiau 1,2,3,4,5, 6 a 7 uchod, cyn i’r mater fynd gerbron y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr ac am eu cefnogaeth yn ystod y broses hon.

**4 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022.

Materion yn codi
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 18 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Gwener, 18 Chwefror 2022.**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dan Potter, John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Keith Evans, Peter Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Lynford Thomas.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorwyr Ray Quant (Dirprwy Arweinydd), y Cynghorwyr Catherine Hughes, Alun Williams, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Dafydd Edwards a Rhodri Evans (Aelodau Cabinet).

**Swyddogion yn bresennol:** Barry Rees, (Cyfarwyddwr Corfforaethol); James Starbuck, (Cyfarwyddwr Corfforaethol); Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro); Alun Williams, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad); Lowri Edwards, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd), Geraint Edwards, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth); Russell Hughes-Pickering, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio); Arwyn Morris, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid); Stephen Johnson, (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael); Duncan Hall, (Rheolwr Corfforaethol, Cyllid a Chyfrifon Gwasanaethau); Justin Davies, (Rheolwr Corfforaethol, Cyllid Craidd, Cyllid a Chaffael); Dwynwen Jones, (Swyddog Trosolwg a Chraffu); Nia Jones, (Rheolwr Corfforaethol. Gwasanaethau Democrataidd); Neris Morgans, (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd); Kirsty Jenkins, (Cyfrifydd Gwasanaethau); Chris Macey, (Cyfrifydd Gwasanaethau); Carys Fowles, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Roger Davies, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Ann James, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Veronica Evans, (Cyfrifydd Cynorthwyol); Iona Davies a Carol Thomas, (Cyfieithwyr).

1:30pm – 3:17pm

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Wyn Thomas am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod gan fod storm Eunice wedi arwain at doriad yn y cyflenwad trydan. Ymddiheurodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Eifion Evans, Prif Weithredwr, am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000,**

**Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.

3 **Adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft 2022/2023**

Amlinellodd y Cynghorydd Ivor Williams, Cadeirydd y Pwyllgor, weithdrefn y cyfarfod a chroesawodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/2023 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan esbonio mai setliad dros dro yw hwn, a disgwylir y setliad terfynol ar 1 Mawrth, 2022. Cyfanswm y setliad refeniw, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun, a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 2022/23 yw £119.419m. Mae hyn yn cymharu â dyraniad 2021/22 o £110.006m (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau) ac mae'n gynnydd o 8.6%. Mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 9.4% ar gyfartaledd gyda Cheredigion yn 19eg. Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod £50 miliwn o arbedion wedi'u gwneud ers ei phenodiad yn 2012.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod llythyr wedi dod i law ar 17 Chwefror 2022 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yn cyhoeddi cynnydd o £50m ar gyfer y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2021-2022. Nid oedd y swm a fyddai'n cael ei ddyrannu i Gyngor Sir Ceredigion yn hysbys hyd yma ond roedd yn debygol o fod tua £1m. Nid oedd y cyllid wedi'i neilltuo (h.y. heb ei ddyrannu i wasanaethau penodol) a gellir ei gario ymlaen mewn cronfeydd wrth gefn i flwyddyn ariannol 2022-2023. Esboniwyd y byddai angen ystyried goblygiadau'r cyllid ychwanegol hwn a sut y byddai hynny'n cael ei ddyrannu ar gyfer cyllideb 2022-2023.

Croesawodd yr aelodau'r cyllid ychwanegol ond mynegwyd siom bod y cyhoeddiad yn hwyr ac nad oedd yn caniatáu i waith craffu ddigwydd yn seiliedig ar y wybodaeth newydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2022 ac y byddai cyfle i drafod yr opsiynau ar gyfer y cyllid ychwanegol.

Mae Setliad Ceredigion yn adlewyrchu ystod o symudiadau ailddosbarthu llai ffafriol yn ariannol a welir yn y boblogaeth a dangosyddion niferoedd disgyblion Ysgol Uwchradd. Mae Asesiadau o Wariant Safonol yn gyfrifiadau tybiannol o'r swm y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth. Yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2022/23 yw £166.372m, sef cynnydd o 7.2% (2021/22 £155.153m). Y cynnydd mwyaf sylweddol o ran gwasanaeth oedd Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, sef 12.2%.

Mae model y Gyllideb wedi'i ddrafftio i gynnwys yr addasiadau o ran y setliad dros dro. Bydd angen ystyried unrhyw addasiadau sydd eu hangen sy'n codi yn y setliad terfynol a'u hymgorffori'n briodol yn y gyllideb.

Mae'r gwaith asesu manwl, a wnaed i nodi'r pwysau anochel o ran costau sy'n
wynebu'r Gwasanaethau, wedi'i gwblhau, ac mae hwn wedi nodi cyfanswm net o £13.1m, a grynhoir yn Atodiad 1 ym mhapurau'r agenda. Mae'r swm yma bron yn ddwbl y blynyddoedd cynt ac yn £3.8m yn fwy na'r swm uwch sydd ar gael yn y setliad a byddai hyn gyfystyr â'r angen i gynyddu Treth y Cyngor o bron i 8%, fodd bynnag mae rhai arbedion ar gael i broses pennu'r gyllideb.

Daw costau cynyddol Gofal yn unig i £7m, gan gynnwys:-

- Cyflog Byw Gwirioneddol £9.90 y DU ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25% – yn effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r Gwasanaethau a Gomisiynir yn ymwneud â Gofal (yn arwain at ffactorau chwyddiant dros dro o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref / Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol);
- Cartrefi Preswyl – adolygiad pennu ffioedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd;
- Taliadau Uniongyrchol;
- Plant sy'n Derbyn Gofal; a;
- Gofal Cartref.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod darparu ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol a amcangyfrifir yn £3.4m, ac nid oes cytundeb ffurfiol eto ar brif ddyfarniad cyflog 2021/22. Ar ôl ystyried y cyllid posibl sydd ar gael, gellir cyflawni cyllideb gytbwys.

Mabwysiadwyd ffordd gorfforaethol o ymdrin â cholledion a chostau net COVID19, yn hytrach na bod yn rhaid i bob gwasanaeth ysgwyddo symiau y gellir eu priodoli i wasanaethau perthnasol. Mae'r dull hwn o weithredu wedi sicrhau bod rheolaeth ariannol cyllidebau 2021/22 a gweithgarwch busnes fel arfer wedi parhau'n gryf. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y costau caledi a'r incwm a gollir yn dod i gyfanswm gros o ychydig dan £7m gyda chymaint â phosibl yn cael ei adennill a'i adhawlio drwy grantiau/arian Llywodraeth Cymru.

Bydd costau ychwanegol yn sgil COVID-19 a rhywfaint o incwm coll yn parhau i gael eu gweld i mewn i'r flwyddyn 2022/23 a thu hwnt ac felly mae angen cyllideb gorfforaethol o £750k o fewn cyllideb y Grŵp Arweiniol, yn ogystal â defnyddio'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn COVID-19 a amcangyfrifir i fod yn £1.25m. Nid oes unrhyw geisiadau am grant yn ddyledus y flwyddyn nesaf gan y bydd y Gronfa Galedi yn cau ac mae'r Setliad bellach yn caniatáu ar gyfer hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i barhau i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol am ddim ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyhyd ag y bo angen ac i barhau i ddarparu cyllid ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu.

Mae angen cynyddu Treth y Cyngor i ariannu sefyllfa'r gyllideb yn llawn. Mae 4.75% ychwanegol o Dreth y Cyngor yn codi £2.1m gros, sy'n cyfateb i

£1.8m net ar ôl darparu ar gyfer angen ychwanegol y gyllideb a roddir ar gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae polisi adennill Incwm a chostau'r Cyngor yn golygu bod gwasanaethau'n parhau i adennill eu costau chwyddiannol sy'n berthnasol i wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaethau, er mai'r broblem ar hyn o bryd yn y tymor agos yw sicrhau bod ffrydiau incwm yn cael eu hadennill i lefelau cyn Covid-19. Eglurodd yr Arweinydd gan mai cynnig cyllideb ddrafft yw hwn, yn seiliedig ar y setliad Dros Dro, mae'n destun unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen unwaith y bydd y Setliad Terfynol yn hysbys. Byddai unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud yn unol â'r canlynol:

1. bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;
2. bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) yr effeithir arnynt, os bydd hynny'n briodol; ac;
3. ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.

Mae Ardoll yr Awdurdod Tân yn amodol ar gadarnhad ffurfiol a rhagwelir y bydd yn arwain at bwysau o ran cost o £104k, a fydd yn gofyn am gyllid brigdoriad.

Gorffennodd yr Arweinydd ei chyflwyniad gyda chrynodeb o bwysau costau ar draws yr holl wasanaethau/y rhan fwyaf ohonynt, ac ailadroddodd fod yr adroddiad hwn ynghylch y gyllideb yn ymdrin â chyhoeddiad y setliad dros dro gydag argymhelliad i'r Cyngor ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae'r Cyngor i fod i ystyried y gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2022 ar ôl craffu ar y papurau ynghylch y gyllideb a'r cynigion drafft.

Rhoddwyd y cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau ac atebwyd y cwestiynau yn eu tro gan yr Arweinydd a/neu'r Swyddogion. Ymhlith y prif gwestiynau / pwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r posibilrwydd o leihau'r ganran a oedd yn cael ei chynnig ar gyfer cynyddu Treth y Cyngor, oherwydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r cyllid heb ei neilltuo, dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor y byddai pob opsiwn yn cael ei ystyried;
- Cyfeiriodd un o'r Aelodau at Atodiad 1, ar dudalen 20 papurau'r agenda, Cyllideb 2022/23: Pwysau Costau a Amcangyfrifir fesul Gwasanaeth. Bu i'r Aelod gwestiynu'r ffigwr o £13,173m. Wrth ymateb, rhoddodd un o'r swyddogion esboniad manwl;
- Awgrymodd un o'r Aelodau bod angen rhoi ystyriaeth fanwl yn y dyfodol i unrhyw oedi ynghylch recriwtio i swyddi gwag.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y'i nodir yn yr adroddiad i'r Cabinet, er mwyn cynorthwyo i baratoi cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet perthnasol y wybodaeth a oedd yn berthnasol i'w Maes Gwasanaeth (a ddangosir yn Atodiad B o bapurau'r agenda).

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y cyllidebau ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor (a ddangosir yn Atodiad C yr adroddiad); sef:

- **Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd**
  Roedd Elin Prysor, Geraint Edwards a Lowri Edwards yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynwyd y wybodaeth gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Ray Quant.
- **Economi ac Adfywio**
  Roedd Russell Hughes-Pickering yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynwyd y wybodaeth gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Rhodri Evans.
- **Cyswllt Cwsmeriaid**
  Roedd Arwyn Morris yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynwyd y wybodaeth gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Dafydd Edwards.
- **Cyllid a Chaffael / Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd**
  Roedd Stephen Johnson ac Alun Williams yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet, y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn a Gareth Lloyd y wybodaeth a oedd yn berthnasol i'w portffolios Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau Cabinet am gyflwyno'r wybodaeth.

Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet perthnasol y Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig fel yr amlinellwyd yn Atodiad D, tudalennau 45 i 51 ym mhapurau'r agenda.

Yna rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau, a gafodd eu hateb yn eu tro gan yr Aelod Cabinet neu'r Swyddog perthnasol. Ymhlith y prif gwestiynau / pwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

1. Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhai o'r arbedion a ragwelwyd a oedd yn ymddangos yn flynyddol, er enghraifft, ad-drefnu gwasanaethau, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y rhain yn cael eu monitro bob chwarter yng nghyfarfodydd y Grŵp Monitro Perfformiad yr oedd yr Uwch Swyddogion, yr Aelodau Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn bresennol ynddynt;
2. Yn dilyn cwestiwn ynglŷn â rhoi benthyg offer cyfieithu i Gynghorau Tref a Chymuned, cadarnhaodd un o'r Swyddogion nad oedd y Cyngor yn codi tâl am hyn. Roedd hyn i annog y Cynghorau Tref a Chymuned i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu cyfarfodydd;
3. Cadarnhawyd bod ffi'r bandstand yn gysylltiedig â chwyddiant ac nad oedd yn ffi newydd.

4. Wrth ateb cwestiwn ynglŷn â’r ffi ar gyfer newid enwau tai, cadarnhaodd un o’r swyddogion fod 20 o enwau tai wedi newid o Saesneg i Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 1.2.2020 a 1.2.2022 a bod 2 wedi newid o Gymraeg i Saesneg. Dywedodd un o’r cynghorwyr fod arwyddocâd hanesyddol i rai enwau Saesneg ar yr arfordir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd, yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion am y wybodaeth a dderbyniwyd yn y cyfarfod, a gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor bleidleisio yn eu tro a oeddent yn derbyn, yn erbyn, neu'n ymatal rhag pleidleisio ar yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir.
2. Ystyried y pwysau costau amcangyfrifedig a wynebir (£13.173m ar draws pob agwedd).
3. Ystyried y ffioedd a'r taliadau arfaethedig a'r incwm ychwanegol o £155k a amcangyfrifir i helpu gyda'r Arbedion sydd eu hangen.
4. Nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
5. Nodi’r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd.
6. Ystyried y 3 opsiwn a gynigir ar gyfer lefel Treth y Cyngor, sef 4.75%, 5.0% a 5.25%.
7. Darparu unrhyw adborth priodol arall sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet.

**Argymhelliad:**
Ar ôl ystyried, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

**1.** **CYMERADWYO** cyllideb y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel yr uchod**;**
2. **CYMERADWYO’R** Ffioedd a’r Taliadau arfaethedig fel yr amlinellir yn atodiad D yr adroddiad (tudalen 45 o 51)
**3.** **CYMERADWYO'R** cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig**;**
4. **CYTUNO** i nodi’r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau**;**
5. **CYTUNO** i nodi’r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd. **<u>Noder:</u>** Gwnaeth y Cynghorydd Ceredig Davies ymatal rhag pleidleisio ar yr argymhelliad hwn ac roedd yn dymuno i hyn gael ei nodi yn y cofnodion;
6. Oherwydd y llythyr diweddar a dderbyniwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Chwefror 2022, ni chafodd argymhelliad rhif 6 ei ystyried;
7. Cytunodd y Pwyllgor i ddarparu'r adborth priodol canlynol yn ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet – Cytunwyd i argymell y byddai gweinyddiaeth newydd y Cyngor yn ystyried sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried Paratoi'r Gyllideb. Byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y lle cyntaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau’r Pwyllgor am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 17 Mawrth 2022**

**Cadeirydd:** ________________

**Dyddiad:** __________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol